Y PASG 5

ACTAU 11:1-18; SALM 148;
DATGUDDIAD 21:1-6; IOAN 13:31-35

● Gweddi agoriadol

Byddwn yn llonydd foment wrth i ni ddynesu at Dduw i'w addoli.
Fe'n hatgoffwn ein gilydd pam y daethom ynghyd yma heddiw.
Gwrandewch. Mae Duw yn siarad hyd yn oed yn sŵn pell y byd o'n cwmpas.
Arglwydd Dduw, yn ein hamser byr gyda'n gilydd, agor ein llygaid i ganfod dy weledigaeth am y lle hwn a'n rhan ninnau ynddo.
Dysga ni, clyw ein gweddi, ac arfoga ni i wasanaethu ble bynnag yr ei â ni, i'th glod a'th ogoniant.

● Moliant

Molwch yr Arglwydd, yr holl nefoedd;
cyhoeddwch ei enw o gopa'r mynydd a llawr y dyffryn.
Molwch yr Arglwydd, haul, lloer a sêr;
cyhoeddwch ei enw dan awyr las a chysgod enfys.
Molwch yr Arglwydd, holl greaduriaid y ddaear;
cyhoeddwch ei enw mewn adain eryr a rhu llew.

Molwch yr Arglwydd, pob pennaeth a brenin;
cyhoeddwch enw'r un sy'n gwneud pob peth yn newydd.
Molwch yr Arglwydd, yr ifanc a'r hen;
cyhoeddwch ei enw, yr un y mae ei gariad grasol ar gyfer pawb.

Bydded i bob perchen anadl
foliannu yr Arglwydd.

● **Cyffes**

Fe'n ceri heb ofyn cwestiwn,
iacháu a dwyn llawnder
heb ragfarn,
ein cofleidio
fel rhiant ei blentyn.
Maddau i ni pan anghofiwn
a theimlo'n ynysig ac unig,
heb wybod ble i droi.
Maddau i ni pan siomwn di,
dewis y rhai a wasanaethwn
a pheidio â gwrando ar dy air.

Fe'n ceri heb ofyn cwestiwn;
boed i ni ddod â thrugaredd,
iachâd a thangnefedd
heb ragfarn
i bawb yr arweini ni atynt heddiw.

● **Diolch**

Dyw dy orchmynion ddim yn faich;
dy ffordd o fyw yw ein hesiampl,
olion dy droed i'w canfod yno.

'Cerwch eich gilydd;
gofalwch am blant,
brodyr, chwiorydd a dieithriaid.
Os ydych yn ddisgyblion i mi,
dangoswch i'r byd;
arddangoswch eich disgyblaeth
a charwch yr hoffus a'r digariad.
Dangoswch ras Duw i'r byd!'

Wrth i ni agor ein calonnau
a dilyn fel y dangosaist,
daw eraill i'th ganfod drwy ein geiriau
a'r bywyd rydym yn ei rannu.

Am y cariad a roddaist i ni
a'r bendithion a ddangosaist i ni,
rhown ddiolch i ti, Dduw cariad a gras.